



STOPIWCH EDRYCHWCH GWRANDEWCH

Nid oes terfyn oedran ar wybodaeth gall achub bywydau.

Mae trenau'n teithio'n gyflymach ac yn dawelach, ac mae digwyddiadau sy'n ymwneud â phobl dros 75 oed ar gynydd. Stopiwch. Edrychwch. Gwrandewch. Tri gair syml i'w cofio, p'un a ydych wedi'u clywed o'r blaen ai peidio.

**DIM
AIL
GYFLE**



DIM AIL GYFLE



1

STOPIWCH A DARLLENWCH YR ARWYDDION

Mae pob croesfan wastad yn wahanol.

Hyd yn oed os ydych yn gyfarwydd â'r groesfan, cofiwch stopio a gwirio am wybodaeth newydd bob tro.

2

EDRYCHWCH A GWRANDEWCH

Dylech edrych i'r ddau gyfeiriad bob tro gan fod trenau'n gallu dod o unrhyw gyfeiriad ar unrhyw linell.

Os oes goleuadau, rhwystrau neu larymau ar y groesfan, sicrhewch eich bod yn eu deall a dilynwch eu cyfarwyddiadau bob tro.

3

ARHOSWCH YN EFFRO

Mae angen hoelio'ch sylw 100% ar groesfannau.

Stopiwch siarad a chanolbwyntiwch ar gadw eich hun yn ddiogel.

Hyd yn oed os yw un trên wedi mynd heibio, gallai un arall fod ar ei ffordd.

4

CROESWCH YN GYFLYM AC YN OFALUS

Dylech groesi dim ond pan fydd yr holl draciau'n glir.

Dylech gerdded mor gyflym a diogel â phosibl ar draws y traciau.

SGANIWCH
YMA AM FWY O
FANYLION



COFIWCH

- Mae amserlenni'n newid a gall trenau gyrraedd ar unrhyw amser.
- Mae'r trenau sy'n nesau atoch bron yn gwbl ddistaw.
- Hyd yn oed os yw trên yn teithio'n araf, ni fydd yn gallu troi na stopio mewn amser os ydych chi'n croesi'r trac.
- Dylech groesi mor gyflym a diogel â phosibl. Peidiwch byth ag aros ar groesfan.